



Dogfen Ymgynghori

Ynghylch y cynnig i uno Ysgol Feithrin Tregatwg ac Ysgol Gynradd Tregatwg trwy:

- 1. ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Tregatwg o 4 hyd at 11 i 3 hyd at 11 oed; a**
- 2. cau Ysgol Feithrin Tregatwg.**



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.

Hefyd gellir darparu'r wybodaeth hon mewn ieithoedd cymunedol eraill.

Cysylltwch â ni trwy ffonio 01446 709727 i drefnu hyn.

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon	4
Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad	5
Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff - sut y gallwch ddod i wybod rhagor a mynegi eich barn	5
Cefndir i'r Cynnig	8
Y Cynnig	8
Mapo'r Dalgylch.....	10
Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd	11
Pam rydym yn cynnig y newidiadau?	11
Gwybodaeth am yr ysgolion.....	11
Perfformiad cyfredol.....	13
Yr effaith fwriadedig ar ddeilliannau addysg.....	16
Beth fyddai'r effaith ar ysgolion eraill?	18
Beth fyddai'r effaith ar y ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig?	18
Beth yw manteision y cynnig hwn?	18
Beth yw anfanteision y cynnig hwn?	19
Trefniadau derbyn a dalgylchoedd	20
Cyllid.....	20
Materion Adnoddau Dynol	21
Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr	21
Effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg	22
Dyddiadau allweddol.....	23
Cwestiynau Cyffredin	25
Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad.....	27

Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle ichi ddysgu am y cynnig ad-drefnu ysgolion a gyflwynir ar gyfer Ysgol Feithrin Tregatwg ac Ysgol Gynradd Tregatwg ac inni ddweud wrthyfch sut y gallwch roi eich barn inni. Hwn yw eich cyfle i ofyn cwestiynau ac i roi sylwadau a fydd yn cael eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut mae camu ymlaen.

Mae'r ddogfen hon yn egluro cynnig y Cyngor i uno Ysgol Feithrin Tregatwg ac Ysgol Gynradd Tregatwg trwy:

- ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Tregatwg o 4 hyd at 11 i 3 hyd at 11 oed; a
- cau Ysgol Feithrin Tregatwg.

Mae ein proses ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru a amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013, ac felly gofynnir am farn ystod o unigolion a grwpiau ynghylch y cynigion hyn.

Cyn bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn darparu nifer o gyfleoedd i unigolion a grwpiau â diddordeb roi eu safbwyntiau a'u barn mewn perthynas â'r cynnig.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori â'r grwpiau canlynol:

Staff (addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Gynradd Tregatwg	Staff (addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Feithrin Tregatwg
Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Tregatwg	Llywodraethwyr Ysgol Feithrin Tregatwg
Rhieni/Gofalwyr y plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Tregatwg	Rhieni/Gofalwyr y plant sy'n mynychu Ysgol Feithrin Tregatwg
Disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Tregatwg	Cyngor Tref y Barri
Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg	Partneriaeth Datblygiad Blynyddoedd Cynnar Bro Morgannwg
Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf	Aelodau o'r Cynulliad / Aelodau o Senedd y DU / Aelodau Rhanbarthol o'r Cynulliad
Cynghorwyr Lleol	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)
Comisiynydd y Gymraeg	Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG)
Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos ym Mro Morgannwg	Undebau Llafur
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol De Cymru	Cyfarwyddwyr Addysg – Yr Holl Awdurdodau Cyfagos
Estyn	Sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Lleol	Gweinidogion Llywodraeth Cymru
Adran Drafnidiaeth y Cyngor	Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol

Tabl 1 Rhestr o grwpiau i ymgynghori â hwy fel rhan o'r broses ymgynghori

Eglurhad o'r termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

Nifer Derbyn – Mae'n rhaid i bob ysgol a gynhelir dderbyn o leiaf gynifer o ddisgyblion â'i nifer derbyn cyhoeddedig. Y nifer derbyn yw nifer y lleoedd i ddisgyblion sydd ar gael ym mhob grŵp blwyddyn.

Uno - Y broses o gyfuno neu uno nifer o ysgolion i greu un ysgol.

Cymeriad Ysgol – Proffil cyffredinol yr ysgol. Er enghraifft mae Ysgol Gynradd Tregatwg yn ysgol gymunedol sy'n derbyn plant rhwng 4 ac 11 oed. Meithrinfa gymunedol yw Ysgol Feithrin Tregatwg sy'n derbyn plant o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed hyd nes eu bod yn cyrraedd **Oedran Ysgol Gorfodol**.

Oedran Ysgol Gorfodol – Dechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd plentyn yn bump oed.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol De Cymru - Y Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol ar gyfer pum awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Y Cyngor - Cyngor Bro Morgannwg.

Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd - Rhaid i ysgolion beidio â thrin disgyblion anabl yn llai ffafriol nag eraill. Mae'n rhaid iddynt wneud "addasiadau rhesymol" i sicrhau nad yw disgyblion anabl o dan anfantais sylweddol, a rhaid iddynt baratoi cynlluniau hygyrchedd ysgol i ddangos sut y byddant yn cynyddu mynediad i addysg ar gyfer disgyblion anabl dros amser.

Cau – lle mae'r awdurdod lleol yn argymhell ei fod yn rhoi'r gorau i gynnal yr ysgol.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - Y broses a luniwyd i sicrhau nad yw polisi, prosiect, neu gynllun yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw bobl sydd dan anfantais neu sy'n agored i niwed.

'FSM' – Prydau Ysgol am Ddim.

'ALI' - Ystyr Awdurdod Lleol yw Cyngor Bro Morgannwg.

'Nifer ar y gofrestr' – Nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgol.

'CYBLD' – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn caiff gwybodaeth a ddilyswyd ei chasglu gan ysgolion i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys nifer y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd a data am yr iaith Gymraeg, cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim, anghenion addysg arbennig, a'u hiaith gyntaf.

'AAA' - Anghenion Addysgol Arbennig.

Gweithredu gan yr Ysgol – Pan fydd athro pwnc neu athro dosbarth yn nodi bod gan ddisgybl AAA, mae'n darparu ymyriadau sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r rheini a ddarparwyd fel rhan o gwricwlwm arferol yr ysgol.

Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy - Pan ddarperir cyngor neu gefnogaeth gan arbenigwyr allanol i athro pwnc neu athro dosbarth ac i'r Cydgysylltydd AAA, fel y gellir rhoi ar waith ymyriadau eraill sy'n ychwanegol at neu'n wahanol i'r rheini a ddarparwyd ar gyfer y disgybl trwy Weithredu gan yr Ysgol.

Canolfan Adnoddau Arbenigol - Canolfan i blant ag anghenion addysgol arbennig.

Datganiad - Mae gan blentyn Ddatganiad Anghenion Addysgol os oes ganddo anawsterau dysgu sy'n golygu bod angen gwneud darpariaeth addysgol arbennig ar ei gyfer. Ystyr anhawster dysgu yw bod y plentyn yn cael llawer mwy o anhawster i ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed neu fod gan y plentyn anabledd sy'n golygu bod arno angen cyfleusterau addysgol gwahanol i'r rheini a ddarperir gan yr ysgol ar gyfer plant yn gyffredinol.

Hysbysiad Statudol – Cyhoeddiad ffurfiol cynnig terfynol yw Hysbysiad Statudol, os caiff ei gymeradwyo gan Gabinet y Cyngor a bydd ond yn cael ei ystyried ar ôl i'r Cabinet gael yr holl ymatebion o'r broses ymgynghori. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel yr amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

Darpariaeth ysgol amser-llawn – Mae polisi'r Cyngor yn caniatáu i'r holl blant sydd wedi dathlu eu pen-blwydd yn bedair oed ar 31 Awst neu cyn hynny fynychu'r ysgol yn amser-llawn y mis Medi hwnnw. Nid yw hwn yn ofyniad cyfreithiol. Mae rhai rhieni / gofawyr yn dewis anfon eu plentyn i'r ysgol pan fydd wedi cyrraedd **Oedran Ysgol Gorfodol**.

Cynnwys plant yn yr ymgynghoriad

Mae'r Cyngor yn credu'n gryf y dylai disgyblion Ysgol Gynradd Tregatwg gael cyfle i roi eu barn am y cynnig hwn. Gwnaed penderfyniad i beidio â chynnal sesiwn ymgynghori gyda phlant Ysgol Feithrin Tregatwg oherwydd credir na fyddai plant 3 a 4 oed yn gallu deall y broses yn llawn.

Bydd gweithdy ymgynghori yn cael ei gynnal gyda chynghor ysgol Ysgol Gynradd Tregatwg i gasglu barn y plant am y cynnig. Bydd yr wybodaeth a gesglir yn y sesiwn hon yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol. Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'w ystyried gan Gabinet y Cyngor ar ôl y cyfnod ymgynghori.

Cynnwys rhieni, llywodraethwyr a staff - sut y gallwch ddod i wybod rhagor a mynegi eich barn

Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cynnal sesiynau galw heibio i'r holl randdeiliaid yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r broses.

Gwahoddir rhieni a gofawyr disgyblion yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd i'r sesiwn/sesiynau galw heibio i rieni, lle gallwch ofyn unrhyw gwestiynau am y cynnig.

Byddwn wastad yn gofyn ichi lenwi ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan ein bod ond yn gallu derbyn barn yn ysgrifenedig.

Dangosir y dyddiad a'r lleoliad ar gyfer y sesiwn/sesiynau galw heibio ar hysbysfyRDDau'r ysgol feithrin a'r ysgol gynradd a thrwy wefannau'r ysgolion.

Hefyd rydym wedi trefnu cyfarfodydd i staff a chyrrff llywodraethu yr ysgolion.

Yn ogystal gellir dod o hyd i'r ddogfen hon a rhagor o wybodaeth ategol ar wefan Cyngor Bro Morgannwg: www.valeofglamorgan.gov.uk/cadoxtonschools

Gellir dod o hyd i ddolenni i'r ddogfen hon ar y cyfryngau cymdeithasol trwy ffrwd Twitter Cyngor Bro Morgannwg a thrwy dudalen Facebook Cyngor Bro Morgannwg.

Rhoddir manylion am y cyfarfodydd ymgynghori isod:

Natur yr ymgynghoriad	Dyddiad/Amser	Lleoliad
Cyfarfod Staff – cynradd	Ionawr 26, 2016 3.30pm – 4.30pm	Ysgol Gynradd Tregatwg
Cyfarfod Staff - meithrin	Chwefror 10, 2016 3.30pm – 4.30pm	Ysgol Feithrin Tregatwg
Cyfarfod y Llywodraethwyr – cynradd	Ionawr 26, 2016 4.45pm – 5.45pm	Ysgol Gynradd Tregatwg
Cyfarfod y Llywodraethwyr - meithrin	Chwefror 10, 2016 4.45pm – 5.45pm	Ysgol Feithrin Tregatwg
Sesiwn Galw Heibio 1 i Rieni	Chwefror 4, 2016 11.30am – 2.00pm	Canolfan Victoria Park Gymunedol, Heol yr Eglwys, Y Barri CF63 1JY
Sesiwn Galw Heibio 2 i Rieni	Chwefror 4, 2016 3.00pm – 6.00pm	Eglwys Fethodistaidd Tregatwg, Church Rd, Tregatwg, Y Barri CF63 IJX
Sesiwn Galw Heibio 3 i Rieni	Chwefror 9, 2016 11.30am – 2.00pm	Canolfan Victoria Park Gymunedol, Heol yr Eglwys, Y Barri CF63 1JY
Sesiwn Galw Heibio 4 i Rieni	Chwefror 9, 2016 3.00pm – 6.00pm	Eglwys Fethodistaidd Tregatwg, Church Rd, Tregatwg, Y Barri CF63 IJX

Tabl 2 - Cyfarfodydd Staff, Llywodraethwyr a Rhieni

Mae eich barn yn bwysig

Bydd y cyfnod ymgynghori rhwng **4 Ionawr 2016 a 15 Chwefror 2016**. Gallwch ymateb i'n cynigion ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod hwn.

Mae eich barn yn bwysig i ni, ac mae nifer o ffyrdd y gallwch ei mynegi inni.

Gallwch:

- Lenwi'r ffurflen ymateb ar-lein trwy fynd i:
www.valeofglamorgan.gov.uk/cadoxtonschools
- Mynd i sesiwn galw heibio a siarad â ni wyneb yn wyneb. Mae hon yn ffordd dda o gael atebion i unrhyw gwestiynau sydd gennych am y cynigion. Byddwn dal yn gofyn ichi lenwi ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan ein bod ond yn gallu derbyn barn yn ysgrifenedig.
- Llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i rhoi yn y blychau ymateb i'r ymgynghoriad a geir yn nerbynfeydd yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd.
- Llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i dychwelyd i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen hon:

Rhadbost RTGU-JGBH-YYJZ
Ymgynghoriad
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig, Holton Road
Y BARRI, CF63 4RU

Bydd yr holl ymatebion a gawn yn ysgrifenedig, gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, yn cael eu hystyried gan Gabinet y Cyngor cyn ei fod yn penderfynu a yw'n mynd i gyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y cynigion neu beidio.

Er y bydd yr ymatebion a geir gan ymgynghoreion sy'n gwrthwynebu'r cynigion hyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r adroddiad ymgynghori, ni fyddant yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Byddai gwrthwynebiad statudol yn rhan o'r cyfnod hysbysiad statudol, os caiff ei gymeradwyo yn y cam nesaf gan Gabinet y Cyngor.

Os hoffech wrthwynebu'r hysbysiad yng nghan nesaf y broses, os bydd yn mynd rhagddi, bydd angen ichi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Amlinellir y dyddiadau allweddol hyn yn Amserlen y Broses Statudol ar dudalen 23.

Cofiwch fod yn rhaid i'r holl sylwadau a anfonir yn ysgrifenedig gynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn y sawl sy'n gwneud y sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **15 Chwefror 2016**. Yn anffodus ni fydd y Cyngor yn ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Cefndir i'r Cynnig

Dros y 10 mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi ceisio symud tuag at fodel ysgol gynradd ar gyfer addysg 3 i 11 oed trwy uno gwahanol ysgolion babanod ac ysgolion iau lle mae cyfle wedi bod i wneud hynny.

Yn 2002, cafodd Ysgol Fabanod Tregatwg ac Ysgol Iau Tregatwg eu huno i greu Ysgol Gynradd Tregatwg. Adeg yr uno penderfynwyd peidio â chynnwys yr ysgol feithrin yn rhan o'r broses hon. O ystyried profiad ysgolion cynradd eraill sydd â dosbarthiadau meithrin, datblygiad cwricwlwm y cyfnod sylfaen, a phwysau parhaus ar gyllideb yr ysgol, bellach mae'n briodol ailystyried y penderfyniad hwn.

Ar hyn o bryd mae 3 ysgol feithrin annibynnol ym Mro Morgannwg: Ysgol Feithrin Tregatwg (y Barri), Ysgol Feithrin Bute Cottage (Penarth) ac Ysgol Feithrin Cogan (Penarth). O'r 15 ysgol gynradd sydd yn y Barri, mae gan 14 ohonynt ddsbarth meithrin sy'n rhan o'r ysgol. Ysgol Gynradd Tregatwg yw'r unig ysgol gynradd yn y Barri sydd heb ddsbarth meithrin.

Gall plant sy'n byw yn y dalgylch wneud cais am gael eu derbyn i Ysgol Feithrin Tregatwg o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Gall rhieni wneud cais am i'w plentyn fynychu Ysgol Gynradd Tregatwg os yw wedi dathlu ei ben-blwydd yn bedair oed ar 31 Awst neu cyn hynny.

Mae Ysgol Feithrin Tregatwg ac Ysgol Gynradd Tregatwg wedi'u lleoli tua 20 metr o'i gilydd ar safleoedd cyfagos. Mae'r ysgolion mewn ardal 'Cymunedau yn Gyntaf' a 'Dechrau'n Deg', a nodwyd o dan gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Gellir gweld map o'r dalgylch ar dudalen 10.

Y Cynnig

Mae'r Cyngor yn cynnig uno ysgolion Meithrin a Chynradd Tregatwg o **01 Medi 2016 ymlaen** a chreu un ysgol gynradd 3 i 11 oed ar safleoedd presennol Ysgol Feithrin Tregatwg ac Ysgol Gynradd Tregatwg.

O achos gofynion cyfreithiol Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, cynigir bod y Cyngor yn cau Ysgol Feithrin Tregatwg ac yn ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Tregatwg. Byddai cau'r ysgol feithrin yn golygu na fyddai'n endid ar wahân mwyach, er enghraifft ni fyddai ganddi gyllideb ar wahân ac ni fyddai'n destun arolygiad gan Estyn. Fodd bynnag, byddai'r ddarpariaeth feithrin yn dal i gael ei darparu o adeilad presennol yr ysgol feithrin. Ni fydd bwlch yn addysg y plant yn sgil yr uno arfaethedig. Byddai gan yr ysgol unedig ddsbarth meithrin â chpasiti ar gyfer 100 o leoedd rhan-amser, fel yr hyn a ddarperir ar hyn o bryd. Hefyd byddai Ysgol Gynradd Tregatwg yn parhau i ddarparu 60 o leoedd (2 ddsbarth) ar gyfer pob grŵp blwyddyn, o'r ddsbarth derbyn hyd at flwyddyn 6, gyda chyfanswm capasiti o 420 o leoedd i ddisgyblion. Byddai'r ysgol unedig yn dal i ddefnyddio'r ddau safle presennol ac ni fyddai'n fwy na'n llai na'r ddwy ysgol bresennol ar wahân.

Cynigir mai pennaeth Ysgol Gynradd Tregatwg fyddai pennaeth yr ysgol unedig a'r disgwyl yw y bydd staff o'r ysgol feithrin yn rhan o'r ysgol unedig newydd.

Byddai corff llywodraethu yr ysgol gynradd yn parhau fel corff llywodraethu yr ysgol unedig,

a gallai ddewis cynyddu ei aelodaeth o 14 aelod i 18 er mwyn cynnwys aelodau o gorff llywodraethu yr ysgol feithrin.

Cadoxton Primary and Nursery Schools catchment area



Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd

Darpariaeth Feithrin

Darperir addysg feithrin gan Ysgol Feithrin Tregatwg.

Darpariaeth Gynradd

Darperir addysg gynradd trwy gyfrwng y Saesneg gan Ysgol Gynradd Tregatwg.

Darperir addysg gynradd enwadol trwy gyfrwng y Saesneg gan:

- Ysgol Gynradd yr Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru (Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir)
- Ysgol Fabanod Babyddol Sain Helen (Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir)
- Ysgol Iau Babyddol Sain Helen (Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir)

Darperir addysg gynradd trwy gyfrwng y Gymraeg gan Ysgol Gwaun y Nant.

Darpariaeth Uwchradd

Mae Ysgol Gynradd Tregatwg yn bwydo'r ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg canlynol:

- Ysgol Gyfun y Barri
- Ysgol Gyfun Bryn Hafren

Mae addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gael yn Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg.

Mae addysg uwchradd enwadol ar gael yn:

- Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf, Caerdydd
- Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant, y Barri

Pam rydym yn cynnig y newidiadau?

Dros y 10 mlynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi ceisio symud tuag at fodel ysgol gynradd ar gyfer addysg 3 i 11 oed trwy uno gwahanol ysgolion babanod ac ysgolion iau lle mae cyfle i wneud hynny. Cafodd Ysgol Gynradd Tregatwg ei sefydlu pan unwyd yr ysgolion babanod ac iau yn 2002. Bryd hynny penderfynwyd na ddylai'r ysgol feithrin gael ei chynnwys yn rhan o'r broses uno. O ystyried profiad ysgolion cynradd eraill sydd â dosbarthiadau meithrin, datblygiad cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, a phwysau parhaus ar gyllidebau ysgol, bellach mae'n briodol ailystyried y penderfyniad hwn.

Gwybodaeth am yr ysgolion

Galw cyfredol am leoedd - Ysgol Feithrin Tregatwg

Mae gan Ysgol Feithrin Tregatwg gapasiti o 100 o leoedd rhan-amser. Ar hyn o bryd mae 94 o blant oedran ysgol feithrin yn byw o fewn ffiniau'r dalgylch. Roedd 40 (40%) o'r plant a oedd yn mynychu'r ysgol feithrin ym mlwyddyn ysgol 2014/15 yn byw yn nalgylch yr ysgol feithrin.

Gwybodaeth Gyffredinol am yr Ysgol

Ysgol	Math o Ysgol	Categori Iaith	Nifer Derbyn	Capasiti'r Ysgol	Nifer ar y gofrestr 2014/15	Ystod oedran
Ysgol Feithrin Tregatwg	Cymunedol	Cyfrwng Saesneg	100	100	96	3 - 4

Tabl 3 - Gwybodaeth Dalgylch a Chapasiti - CYBLD Ionawr 2015

Lefel Gyfredol o Leoedd Gwag

Ysgol	Capasiti'r ysgol (lleoedd rhan-amser)	Nifer ar y gofrestr	Lleoedd gwag	% y Lleoedd gwag
Ysgol Feithrin Tregatwg	100	100	0	0%

Tabl 4 - Dadansoddiad o'r galw meithrin fel roedd ym mis Ebrill 2015 (tymor yr haf)

Galw cyfredol am leoedd - Ysgol Gynradd Tregatwg

Mae gan Ysgol Gynradd Tregatwg gapasiti o 420 o leoedd. Mae 314 o blant oedran ysgol gynradd yn byw o fewn ffiniau'r dalgylch ac mae 96 (31%) ohonynt yn mynychu'r ysgol.

Gwybodaeth Gyffredinol am yr Ysgol

Ysgol	Math o Ysgol	Categori Iaith	Nifer Derbyn	Capasiti'r Ysgol	Nifer ar y gofrestr	Ystod oedran
Ysgol Gynradd Tregatwg	Cymunedol	Cyfrwng Saesneg	60	420	366	4 - 11

Tabl 5 - Gwybodaeth Dalgylch a Chapasiti - CYBLD Ionawr 2015

Lefel Gyfredol o Leoedd Gwag

Ysgol	Capasiti'r Ysgol	Nifer ar y gofrestr	Lleoedd gwag	% y Lleoedd gwag
Ysgol Gynradd Tregatwg	420	366	54	12.86%

Tabl 6 - Data CYBLD fel roedd ar 15 Ionawr 2015

Galw am leoedd yn y dyfodol

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am nifer y plant sy'n mynychu'r ysgolion a'r nifer disgwylidig yn y dyfodol.

Data diweddar am y nifer ar y gofrestr, a data rhagamcanol am y nifer ar y gofrestr ar gyfer ysgolion												
Ysgol	Capasiti Cyfredol yr Ysgol	Ionawr 2011	Ionawr 2012	Ionawr 2013	Ionawr 2014	Ionawr 2015	Rhagamcan 2015/16	Rhagamcan 2016/17	Rhagamcan 2017/18	Rhagamcanion 2018/19	Rhagamcanion 2019/20	Rhagamcanion 2020/21
Ysgol Feithrin Tregatwg	100	91	85	99	95	96	96	96	96	96	96	96
Ysgol Gynradd Tregatwg	420	332	331	336	364	366	382	398	399	399	400	401

Tabl 7 - Niferoedd diweddar a rhagamcanol ar y gofrestr yn Ysgol Feithrin Tregatwg ac Ysgol Gynradd Tregatwg.

Rhagamcanion yr Ysgol Feithrin

Cynigir lleoedd i blant yn yr ysgol feithrin o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed naill ai yn nhymor yr hydref, y gwanwyn neu'r haf, yn dibynnu ar eu hoedran. Mae'r ysgol feithrin yn llawn bob blwyddyn yn rheolaidd ar ôl i'r derbyniad diwethaf ddechrau yn nhymor yr haf. Dengys rhagamcanion disgyblion fod y sefyllfa hon yn debygol o barhau hyd y gellir rhagweld.

Rhagamcanion yr Ysgol Gynradd

Mae'r rhagamcanion ar gyfer disgyblion yn rhagweld y bydd y nifer ar gofrestr yr ysgol gynradd yn cynyddu i 400 erbyn mis Ionawr 2020, sy'n awgrymu'r posibilrwydd o gapasiti gwag o 4.8%. Mae gan ddalgylch yr ysgol boblogaeth o 314 o blant y mae 96 (31%) ohonynt yn mynychu'r ysgol. Mae gan ochr ddwyreiniol y Barri boblogaeth ddwys lle mae nifer o ysgolion o fewn pellter cerdded. Mae hyn yn golygu bod plant yn mynychu ysgolion sydd y tu hwnt i'w hardal leol o ganlyniad i ddewis rhiant.

O'r 366 o blant ar y gofrestr ym mis Ionawr 2015 mae:

- 96 (26%) o'r plant yn byw yn nalgylch yr ysgol
- 265 (72%) o'r plant yn byw yn nalgylchoedd ysgolion cynradd eraill yn y Barri megis ysgolion cynradd Palmerston a Pharc Jenner.
- 2 (1%) o'r plant sy'n mynychu'r ysgol yn byw y tu allan i'r Barri, ym Mro Morgannwg.
- 3 (1%) o'r plant sy'n mynychu'r ysgol yn byw y tu allan i Fro Morgannwg.

Perfformiad cyfredol

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrrff llywodraethu y ddwy ysgol i sicrhau bod safonau'n uchel yn yr ysgolion, bod yr addysgu a'r dysgu o ansawdd uchel, a bod arweinyddiaeth a llywodraethu yn gryf. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda'r ddau sefydliad er mwyn monitro perfformiad yr ysgolion a'u helpu o ran gwella ysgolion.

Estyn yw swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n un o gyrff y Goron, a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Er bod Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru caiff ei hariannu ganddi o dan adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau darparwyr hyfforddiant ac addysg yng Nghymru.

Cafodd Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol De Cymru ei sefydlu ym mis Medi 2012. Mae'r Consortiwm yn cefnogi ac yn herio holl ysgolion Bro Morgannwg ar ran y Cyngor.

Caiff yr ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen arolygu ysgolion genedlaethol. Diben arolygiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion fel y gallant wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyrhaeddir gan eu disgyblion (Estyn).

Ar gyfer arolygiadau Estyn a gynhaliwyd cyn mis Medi 2010, roedd 7 cwestiwn allweddol y gellid rhoi'r graddau canlynol ar eu cyfer:

- Gradd 1 – Da gyda nodweddion rhagorol
- Gradd 2 – Nodweddion da heb unrhyw ddiffygion sylweddol
- Gradd 3 – Nodweddion da yn gorbwyso'r diffygion
- Gradd 4 – Rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
- Gradd 5 – Llawer o ddiffygion pwysig

Ym mis Medi 2010 cafodd fframwaith arolygu cyffredin newydd ei gyflwyno. Yn ystod pob arolygiad ysgol, mae arolygwyr yn ceisio ateb tri chwestiwn allweddol:

- Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?
- Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
- Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheoli?

Hefyd mae arolygwyr yn darparu dyfarniad cyffredinol am berfformiad cyfredol yr ysgol ac am ei rhagolygon o ran gwella. Yn y gwerthusiadau hyn, mae arolygwyr yn defnyddio graddfa 4 pwynt:

Dyfarniad	Beth mae'r dyfarniad yn ei olygu
Rhagorol	Mae llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector.
Da	Mae llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae'r cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Tabl 8 - Meini Prawf Arolygiad Estyn

Adroddiad Estyn

Ysgol Feithrin Tregatwg

Cafodd Ysgol Feithrin Tregatwg ei harolygu gan Estyn ym mis Mawrth 2010. Cafodd yr ysgol feithrin ei harolygu o dan y raddfa 5 pwynt, fel y nodir ar dudalen 13, ar gyfer arolygiadau cyn mis Medi 2010.

Asesiad yr arolygiad o'r ysgol oedd **"da gyda nifer o nodweddion rhagorol"**.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd gan Estyn ar gyfer y 7 cwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol	Gradd yr Arolygiad
1 Pa mor dda yw cyflawniadau'r dysgwyr?	1
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, hyfforddi ac asesu?	1
3 I ba raddau y mae profiadau dysgu'n diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	1
4 Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth a ddarperir i ddysgwyr?	1
5 Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	1
6 Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn gwerthuso ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7 Pa mor effeithlon y mae arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio adnoddau?	1

Gellir dod o hyd i'r adroddiad ynghylch arolygiad diweddaraf Ysgol Feithrin Tregatwg trwy fynd i: <http://www.estyn.gov.wales/provider/6731010>

Ysgol Gynradd Tregatwg

Cafodd Ysgol Gynradd Tregatwg ei harolygu gan Estyn ym mis Mehefin 2011 o dan y raddfa 4 pwynt, fel y nodir ar dudalen 14. Cafodd ei hasesu'n ysgol **"â pherfformiad da a rhagolygon da ar gyfer gwella"**.

Roedd yr ymatebion i'r tri chwestiwn arolygu allweddol fel a ganlyn:

Cwestiwn Allweddol	Gradd yr Arolygiad
1 Pa mor dda yw'r deilliannau?	Da
2 Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
3 Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheoli?	Da

Gellir dod o hyd i'r adroddiad ynghylch arolygiad diweddaraf Ysgol Gynradd Tregatwg trwy fynd i: <http://www.estyn.gov.wales/provider/6732181>

Categoreiddio Ysgolion - Llywodraeth Cymru

Yn 2014 bu i Lywodraeth Cymru gyflwyno system gategoreiddio newydd a roddai ystyriaeth i safonau pob ysgol ochr yn ochr â chapasiti'r ysgol i wella, er mwyn deall faint o gefnogaeth y

mae angen i sefydliadau megis Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canol De Cymru ei rhoi i'r ysgol fel y gall gyrraedd ei thargedau.

Disgrifir y system gategoreiddio isod:

Categori	Beth mae'r categori yn ei olygu
Gwyrdd	Ysgol hynod effeithiol sy'n cael ei chynnal yn dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella
Melyn	Ysgol effeithiol sy'n gwneud yn dda eisoes ac sy'n gwybod ym mha feysydd y mae angen iddi wella.
Ambr	Ysgol y mae angen iddi wella ac y mae angen cymorth arni i nodi'r camau er mwyn gwella neu er mwyn gwneud i newid ddigwydd yn gynt.
Coch	Ysgol y mae angen iddi wella'n sylweddol a fydd yn cael cymorth dwys yn syth.

Tabl 9 – Meini prawf Llywodraeth Cymru 2015

I benderfynu ar y categori lliw fel yr eglurwyd yn y tabl uchod, gosodir ysgolion mewn un o bedwar grŵp ar gyfer safonau (1-4) ac ar gyfer gwneud gwelliannau (A-D). 1 yw'r radd uchaf ar gyfer safonau ac A yw'r uchaf ar gyfer capasiti i wella.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun gategoreiddio, gweler canllaw Llywodraeth Cymru i rieni ynghylch y System Genedlaethol ar gyfer Gategoreiddio Ysgolion:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/150119-parents-guide-en.pdf>

Ysgol	Gradd Safonau	Capasiti i Wella	Categori Cyffredinol
Ysgol Feithrin Tregatwg	AMH	A	Gwyrdd
Ysgol Gynradd Tregatwg	3	A	Melyn

Tabl 10 - Categoriâu Gwella a Safonau - Ionawr 2015

Ni chyhoeddir categori ysgolion meithrin gan Lywodraeth Cymru gan nad yw'r safonau a asesir gan y model hwn yn berthnasol i ysgolion meithrin. O ganlyniad mae'r ysgol feithrin wedi'i hasesu ar sail ei chapasiti i wella yn unig. Mae'r ddogfen dros dro ar gyfer gategoreiddio ysgolion yn 2016, a fydd yn cael ei chyhoeddi fis Ionawr nesaf, yn dangos bod yr ysgol feithrin a'r ysgol gynradd yn y categori cymorth gwyrdd.

Yr effaith fwriadedig ar ddeilliannau addysg

Darpariaeth

Bwriad y cynnig yw creu ysgol gynradd 3 i 11 oed trwy uno ysgolion meithrin a chynradd Tregatwg. Byddai uno yn galluogi'r cryfderau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn yr ysgolion meithrin a chynradd presennol i gael eu cyfuno er mwyn cyflwyno darpariaeth o ansawdd uchel mewn un ysgol a fydd yn weithredol ar ddau safle cyfagos. Byddai hyn yn caniatáu gweledigaeth ac arweinyddiaeth a rennir sy'n ymgorffori'n llawn gwricwlwm cyson a chydlynol ar draws y cyfnod cynradd.

Ni ddylai'r newidiadau gael unrhyw effaith negyddol ar y plant yn ystod unrhyw gyfnod o'u haddysg yn yr ysgol. Ar yr adeg gynnar iawn hon yn addysg y plant, byddai'r ymagwedd at ddysgu a ddefnyddir ar eu cyfer yn gyson, yn eu dilyn trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, ac yn eu helpu i ddeall eu lle yn rheulu'r ysgol.

Deilliannau (safonau a lles)

Mae'r cynnig yn hwyluso athroniaeth addysg gyson i blant am hyd at 9 mlynedd o addysg yn ddi-dor, a thrwy hynny'n lleihau'r posibilrwydd o darfu yn ystod y cyfnod pontio o'r ysgol feithrin i'r ysgol.

Byddai cyflwyno strategaethau rheoli ymddygiad cyson ar gyfer plant o bob oedran yn arwain at ddisgwyliadau clir ac ethos a rennir a ddeallir gan blant, rhieni, a gofalwyr ledled y cyfnodau cynradd a blynyddoedd cynnar.

Bydd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dal i gael ei nodi yn gynnar fel sy'n digwydd yn yr ysgol feithrin ar hyn o bryd. Byddai'r cynnig yn cefnogi ymagwedd gydgyssylltiedig at gynllunio ar gyfer anghenion disgyblion sy'n agored i niwed ar draws y cyfnod sylfaen.

Arweinyddiaeth a llywodraethu

Byddai sefydlu un tîm arweinyddiaeth a chorff llywodraethu yn arwain at waredu dyblygu swyddogaethau rheoli a llywodraethu.

Byddai symleiddio swyddogaethau rheoli a gweinyddu, yn ogystal â'r gallu i drefnu contractau a chytundebau lefel gwasanaeth ar y cyd ar gyfer adeiladu a gwasanaethau cefnogi eraill, yn golygu y gellid defnyddio'r cyllid sydd ar gael yn fwy effeithiol.

Byddai ysgol unedig yn ei gwneud yn haws ymgysylltu â rhieni, yn enwedig lle bo ganddynt blant o oedran meithrin a chynradd. Dim ond un set o bolisïau a chyfathrebiadau y byddai'n rhaid i rieni ymgysylltu â hwy.

Cyflwr cyfleusterau ac adeiladau ysgol

Nod y Cyngor yw darparu'r cyfleusterau gorau posibl i blant yn y Fro er mwyn cefnogi eu dysgu. Cynhaliodd y Cyngor arolwg o gyflwr adeiladau ysgol yn hydref 2014.

Roedd yr arolwg yn cynnwys asesiad gweledol o'r adeiladau er mwyn nodi diffygion sylweddol ac elfennau sy'n dadfeilio.

Ysgol	Math o Ysgol	Cyflwr adeilad yr ysgol	Cost atgyweiriadau a nodwyd
Ysgol Feithrin Tregatwg	Cymunedol	Boddhaol	£100,000
Ysgol Gynradd Tregatwg	Cymunedol	Boddhaol	£371,000

Tabl 11- Deilliannau Arolwg Cyflwr 2014

Nododd adroddiad yr arolwg cyflwr fod angen lefel ofynnol o ymyrraeth er mwyn sicrhau bod safon y ddarpariaeth yn cael ei chynnal.

Ni ragwelir y bydd yn ofynnol darparu unrhyw gyfleusterau ychwanegol yn yr ysgol fel rhan o'r cynnig hwn.

Beth fyddai'r effaith ar ysgolion eraill?

O ran disgyblion, mae cryn symud yn digwydd eisoes ar draws dalgylchoedd rhwng yr ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg cyfagos, yn enwedig rhwng ysgolion cynradd Tregatwg, Parc Jenner, a Palmerston. Mae'r rhan hon o'r Barri yn ddwys ei phoblogaeth ac mae nifer o ysgolion yn agos i'w gilydd. Mae gan rieni'r hawl i fynegi pa ysgol y maent yn ei ffafrio. Ni ragwelir y bydd uno'r ysgol feithrin â'r ysgol gynradd yn newid hyn, ac felly bydd yr effaith ar ysgolion lleol eraill yn yr ardal yn fach iawn.

Beth fyddai'r effaith ar y ddarpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig?

Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth am anghenion y disgyblion cyfredol.

2015		YF Tregatwg	YG Tregatwg	ALI	Cymru
Canran Disgyblion AAA	Gweithredu gan yr Ysgol	17%	27%	13%	12.3%
	Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy	10%	10%	6%	7.4%
	Â Datganiad	0%	0%	1%	0.7%

Tabl 12 - Amlinelliad o'r angen o ran AAA ar gyfer plant oedran ysgol gorfodol CYBLD 2015

Mae tua 25% o'r plant sy'n mynychu'r ysgol feithrin ar y gofrestr Anghenion Addysgol Arbennig. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 15%.

Mae bron 40% o'r plant sy'n mynychu'r ysgol gynradd ar y gofrestr Anghenion Addysgol Arbennig, sydd bron ddwywaith y cyfartaledd cenedlaethol o 21.1%.

Mae'r ysgol feithrin a'r ysgol gynradd yn darparu cwricwlwm a addaswyd, sy'n ymateb i alluoedd y plentyn yn unigol. Mae'r ddwy ysgol yn rheoli'r modd y rhoddir y cwricwlwm hwn ar waith ochr yn ochr â rhannau eraill o'r ddarpariaeth AAA, ac yn sicrhau bod yr holl blant y nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol yn cael eu hintegreiddio ym mhob rhan o'r cwricwlwm. Ar hyn o bryd mae pob ysgol yn cyflogi cynorthwywyr cymorth dysgu i helpu'r plant yn yr ystafell ddosbarth.

Beth yw manteision y cynnig hwn?

Ystyri'r bod gan y cynnig y manteision addysgol canlynol:

- Un tîm arweinyddiaeth a chorff llywodraethu, yn cefnogi pennaeth â chyfrifoldeb 'ysgol gyfan'
- Darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus i'r staff trwy eu galluogi i ennill profiad mewn amgylchedd dysgu cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2.
- Un set o bolisiâu a chod ymddygiad sy'n gyson ar draws yr holl grwpiau blwyddyn
- Darpariaeth barhaus, sy'n adlewyrchu un ethos a diwylliant
- Rhyddhau cyllid y gellid ei ailfuddsoddi mewn dysgu ac addysgu

- Profiad cwricwlwm cyson ar draws y cyfnod sylfaen
- Cyfathrebu symlach rhwng rhieni a staff ac un pwynt cyswllt trwy gydol y cyfnod sylfaen

Beth yw anfanteision y cynnig hwn?

Cydnabyddir bod rhai anfanteision neu risgiau posibl ynghlwm wrth y cynnig, y bydd yn rhaid i'r ysgol a'r Cyngor eu rheoli er mwyn osgoi unrhyw effaith niweidiol:

- Mae'n bosibl y terfir ar y modd y rheolir staff ac adnoddau yn ystod y broses ailstrwythuro, ond bydd profiad y Cyngor o ran uno ysgolion yn sicrhau bod cyn lleied o darfu â phosibl ac nad yw addysg y plant yn dioddef
- Gallai cael un pennaeth yn unig effeithio ar allu staff, rhieni a disgyblion i gael gafael ar yr arweinydd
- Efallai na fydd plant y dosbarth meithrin yn teimlo'n hyderus ynghylch dod yn rhan o amgylchedd ysgol gynradd

Cynllun pontio os caiff y cynigion eu cymeradwyo

Byddai cynigion y Cyngor yn golygu uno'r ddwy ysgol ar ddechrau tymor yr hydref ym mis Medi 2016. Os bydd pob cam o'r cynnig yn cael ei gymeradwyo'n llawn, rhagwelir y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ynghylch yr uno ym mis Mehefin 2016.

Byddai'r holl blant fydd ar gofrestr Ysgol Gynradd Tregatwg ym mis Awst 2016 yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol unedig ym mis Medi 2016, heblaw am y disgyblion fydd yn dechrau yn y dosbarth derbyn am y tro cyntaf, lle bydd yn rhaid i rieni wneud cais am le yn y dosbarth derbyn, yn unol â'r gweithdrefnau arferol ar gyfer derbyn disgyblion.

Byddai'r plant fydd ym Mlwyddyn 1 y dosbarth meithrin ac a fyddai'n disgwyl cael blwyddyn arall o addysg blynnydoedd cynnar yn y dosbarth meithrin ym mlwyddyn ysgol 2016/17, yn parhau yn nosbarth meithrin yr ysgol unedig.

Risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynigion

- Anawsterau posibl o ran dod â dwy set wahanol o arferion gwaith at ei gilydd mewn un cyfnod sylfaen
- Yr her o weithredu mewn dau adeilad ar wahân
- Posibilrwydd y bydd rhanddeiliaid yn gwrthwynebu'r broses newid neu'n penderfynu gwneud dim â hi

Bydd yr heriau a amlinellir uchod yn cael eu rheoli gan y pennaeth, yr uwch-dîm arweinyddiaeth, a chorff llywodraethu yr ysgol unedig, gyda chymorth gan y Cyngor. Mae gan y ddwy ysgol arferion gwaith effeithiol a hyblyg ac mae ganddynt bartneriaeth waith gref eisoes. Bydd angen i'r pennaeth, yr uwch-dîm arweinyddiaeth, a'r corff llywodraethu fabwysiadu proses rheoli newid sy'n dryloyw ac yn deg er mwyn sicrhau, drwy gydol y broses uno, y terfir cyn lleied â phosibl ar bawb sy'n gweithio, yn addysgu, ac yn cael eu dysgu yn y ddwy ysgol.

Trefniadau derbyn a dalgylchoedd

Ni fydd y cynigion hyn yn rhoi bod i unrhyw newidiadau mewn perthynas â'r trefniadau o ran derbyn disgyblion i'r dosbarthiadau meithrin a derbyn. Bydd dalgylch yr ysgol yn aros yr un peth.

Trefniadau derbyn ar gyfer addysg feithrin

Y Cyngor yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr holl ysgolion meithrin cymunedol a gynhelir a'r dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir ym Mro Morgannwg. Ni ellir neilltuo'r un lle mewn ysgol feithrin wirfoddol a reolir neu un gymunedol heb fod cais ffurfiol yn cael ei wneud i'r Cyngor. Gellir cael manylion llawn am feini prawf y cais, dyddiadau a dyddiadau cau ar gyfer addysg feithrin, yn y ddogfen ganlynol gan y Cyngor **'Canllaw i Rieni ar Drefniadau Derbyn i'r Ysgol 2016-17'** .:

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/education_and_skills/schools/admissions/online_admissions.aspx

Trefniadau derbyn ar gyfer addysg gynradd

Ni fydd gan blant sy'n mynychu dosbarth meithrin hawl awtomatig i barhau â'u haddysg yn yr un ysgol pan fyddant yn symud i ddosbarth derbyn, boed y plant yn byw yn y dalgylch neu'r tu allan iddo. Bydd yn ofynnol i rieni lenwi ffurflen gais ar gyfer eu dewis ysgol. Lle bo nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael yn y dosbarth derbyn, caiff lleoedd eu neilltuo gan gymhwysio meini prawf y Cyngor ar gyfer sefyllfa o'r fath, sy'n rhoi blaenoriaeth i'r plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol.

Gellir cael manylion llawn am yr holl ysgolion ym Mro Morgannwg a'r broses ymgeisio yn y ddogfen ganlynol, **'Canllaw i Rieni ar Drefniadau Derbyn i'r Ysgol 2016-17'** trwy fynd i:

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/education_and_skills/schools/admissions/online_admissions.aspx

Cyllid

Buddsoddiad Cyfalaf

Nid oes gan y cynnig hwn unrhyw oblygiadau o ran buddsoddiad cyfalaf.

Costau cynnal

Byddai uno'r ddwy ysgol yn golygu y byddai cyllid yn cael ei neilltuo i'r ysgol gynradd ar yr un sail â'r hyn a ddefnyddir ar gyfer ysgolion cynradd eraill sydd â meithrinfeydd.

Byddai'r cyllid dirprwyedig ar gyfer yr ysgol gynradd unedig newydd tua £86,000 yn llai na'r cyllid a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer yr ysgol gynradd a'r ysgol feithrin ar wahân.

Ni fyddai'r arbediad o £86,000 yn cael ei wneud yn llawn yn ystod blwyddyn gyntaf yr uno gan y byddai trefniadau cyllido trosiannol yn cael eu rhoi ar waith er mwyn galluogi'r ysgol i sefydlu strwythur newydd a chyd-drafod contractau a chytundebau lefel gwasanaeth ar y cyd newydd.

Byddai'r rhan fwyaf o'r arbedion refeniw yn cael eu gwneud trwy newidiadau staffio yn sgil strwythur staffio newydd yr ysgol. Byddai datblygiad y strwythur staffio ac unrhyw oblygiadau yn destun ymgynghori â'r staff a'r Undebau Llafur perthnasol.

Materion Adnoddau Dynol

Bydd y Cyngor yn cefnogi'r llywodraethwyr, y penaethiaid a'r staff yn y ddwy ysgol ag unrhyw newidiadau allai fod yn ofynnol.

Bydd gan y ddwy ysgol fynediad i bolisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol Bro Morgannwg megis y polisi diswyddo. Bydd y gwasanaethau Adnoddau Dynol yn gweithio'n agos gyda'r llywodraethwyr i sicrhau bod cyfathrebu clir a rheolaidd yn digwydd.

Materion cludiant

Gan na fydd unrhyw newid yng nghapasiti cyffredinol yr ysgol nac unrhyw estyniad i'r cyfleusterau presennol, ni ragwelir y bydd unrhyw newidiadau o ran traffig a thagfeydd yng nghyffiniau'r ysgol.

Ni fydd y cynnig yn effeithio ar deithiau'r disgyblion a bydd y llwybrau cerdded i'r ysgol sydd ar gael yn aros yr un peth.

Trefniadau Teithio gan Ddysgwyr

O dan y cynigion hyn nid oes unrhyw fwriad i newid polisi'r Cyngor ynghylch cludo plant i'r ysgol.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i ddarparu cludiant ysgol am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n byw ymhellach na'r pellter cerdded o'r ysgol briodol agosaf.¹ Nid yw'r Cyngor yn darparu cludiant ysgol am ddim i blant oedran meithrin, ac eithrio'r plant hynny sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA).

*"Diffinnir hyn fel mwy na 2 filltir i'r ysgol addas agosaf yn achos Disgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir yn achos Disgyblion Ysgol Uwchradd. Mesurir pellteroedd yn ôl y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael."*²

Ni ddarperir cludiant ysgol ar gyfer plant oedran meithrin sy'n mynychu unedau meithrin ysgolion gan eu bod yn iau nag oedran ysgol statudol. Gellir gweld polisi'r Cyngor ynghylch cludiant ysgol ar wefan y Cyngor:

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/working/education_and_skills/schools/school_transport/school_transport.aspx

¹ Y Polisi ar gyfer Darparu Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol (Diwygiwyd Chwefror 2010)

² Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg

Bydd rhaglen defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn cael ei datblygu ar draws Cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a bydd yr iaith yn cael ei defnyddio'n amlach ac yn gymhlethach wrth i'r plant symud trwy'r grwpiau blwyddyn i Gyfnod Allweddol 2.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Bydd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gynnal fel rhan o'r ymgynghoriad hwn ac yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ymgynghori.

Ystyried yr effaith ar y gymuned

Trwy uno Ysgol Feithrin Tregatwg ac Ysgol Gynradd Tregatwg, bydd cyfle i wella ymgysylltu cymunedol ar draws ystod oedran ehangach. Ni fydd y cynigion hyn yn cael effaith niweidiol ar y cyfleusterau cyfredol sydd ar gael i ddisgyblion, y gymuned a'r rhieni.

Gellir gweld yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn llawn trwy glicio ar y ddolen ganlynol:
www.valeofglamorgan.gov.uk/cadoxtonschools

Dyddiadau allweddol

Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gasglu a'i grynhoi a bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor i bawb fwrw golwg arno. Hefyd gellir cael copïau ar gais trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd yn y ddogfen hon.

Mae nifer o gamau pellach y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cymryd cyn y bydd yn gwneud penderfyniad terfynol. Caiff y camau hyn eu nodi isod:

Amserlen	Proses Statudol	
04 Ionawr 2016	Cyhoeddi'r Ddogfen Ymgynghori	
15 Chwefror 2016	Y dyddiad cau ar gyfer cael sylwadau / safbwyntiau ar y cynnig	
07 Mawrth 2016	<p>Cyflwyno'r Adroddiad Ymgynghori i'r Cabinet (Cyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori)</p> <p><i>Y Cabinet yn gwneud penderfyniad ynghylch cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol</i></p> <p><i>Os yw'n cael ei gymeradwyo - camu ymlaen i'r Hysbysiad Statudol</i></p> <p><i>Os nad yw'n cael ei gymeradwyo - tynnu'r cynnig yn ôl / ailasesu'r cynnig</i></p>	
11 Ebrill 2016	<p>Cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol</p> <p><i>Os caiff hynny ei gymeradwyo, bydd yr Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i osod yn yr ysgolion a enwyd. Bydd copïau o'r hysbysiad ar gael i'r ysgolion perthnasol fel y gallant eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni/gofalwyr ac aelodau o'r staff.</i></p>	
09 Mai 2016 (28 diwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad Statudol)	Y dyddiad cau ar gyfer cael gwrthwynebiadau i'r Cynnig	
06 Mehefin 2016	<p>Lle cafwyd gwrthwynebiadau: Cyflwyno Adroddiad Gwrthwynebu i'r Cabinet</p> <p><i>Y Cabinet i benderfynu ynghylch y cynnig gan ystyried y gwrthwynebiadau a gafwyd a chynnwys yr Adroddiad Gwrthwynebu</i></p>	<p>Lle na chafwyd gwrthwynebiadau: Cyflwyno'r Adroddiad i'r Cabinet</p> <p><i>Y Cabinet i benderfynu ynghylch y cynnig</i></p>
09 Mehefin 2016	Cyhoeddi Penderfyniad y Cabinet	
01 Medi 2016	Gweithredu'r Cynnig	

Tabl 13 - Amserlen ar gyfer yr ymgynghoriad

Gallai'r amserlen arfaethedig gael ei newid.

Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau ar 04 Ionawr 2016 ac yn dod i ben ar 15 Chwefror 2016. Ewch i dudalen 7 i gael rhagor o fanylion ynghylch sut i ymateb a mynegi eich barn.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, bydd adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Hefyd bydd copïau papur o'r adroddiad ar gael ar gais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan ymgynghoreion yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn cyflwyno ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Yn ogystal bydd yr adroddiad yn cynnwys barn Estyn am y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a yw'n mynd i fwrw ymlaen â'r cynigion.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion, bydd yn rhaid i Gyngor Bro Morgannwg gyhoeddi hysbysiad statudol.

Hysbysiad Statudol

Byddai'r hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg a'i osod ym mhrif fynedfa, neu yn ymyl prif fynedfa, yr ysgolion a enwyd fel rhan o'r broses ymgynghori. Byddai copïau o'r hysbysiad ar gael i Ysgol Feithrin Tregatwg ac Ysgol Gynradd Tregatwg er mwyn eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid, ac aelodau o'r staff (gall yr ysgol ddosbarthu'r hysbysiad trwy'r e-bost hefyd). Bydd yr hysbysiad yn cynnwys manylion am y cynigion ac yn estyn gwahoddiad i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny'n ysgrifenedig o fewn y cyfnod a nodwyd.

Penderfynu ynghylch y cynigion

Bydd y Cabinet yn penderfynu ynghylch y cynigion. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynigion, neu eu cymeradwyo ag addasiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cabinet yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol y mae wedi eu cael.

Hysbysiad ynghylch y Penderfyniad

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion, rhoddir gwybod i'r holl bartïon â diddordeb am y penderfyniad, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

Pwy fydd pennaeth yr ysgol gynradd unedig?

Y pennaeth fydd Janet Hayward, sef pennaeth Ysgol Gynradd Tregatwg. Bydd y dosbarth meithrin yn rhan annatod o'r ysgol. Bydd cylch gwaith y pennaeth yn cael ei ymestyn fel ei fod yn cwmpasu ystod oedran ehangach yr ysgol. Y pennaeth a chorff llywodraethu yr ysgol unedig fydd yn penderfynu ar y strwythur staffio.

Beth fydd yn digwydd i staff yr ysgol feithrin?

Rhagwelir y byddai staff yr ysgol feithrin yn cael eu cynnwys yn yr ysgol gynradd unedig newydd. Y pennaeth a chorff llywodraethu yr ysgol unedig fyddai'n penderfynu ar fanylion y strwythur staffio.

Pwy fydd llywodraethwyr yr ysgol gynradd unedig?

Byddai corff llywodraethu presennol yr ysgol gynradd yn parhau fel corff llywodraethu ffurfiol yr ysgol unedig. Gallai'r corff llywodraethu ddewis cynyddu ei aelodaeth o 14 aelod i 18 er mwyn cynnwys aelodau o gorff llywodraethu yr ysgol feithrin. Penderfyniad i'r corff llywodraethu fyddai hwn.

Beth fydd y cynnig yn ei olygu i'r plant sy'n mynychu Ysgol Feithrin Tregatwg ac Ysgol Gynradd Tregatwg ar hyn o bryd? A fydd lle yn cael ei gynnig i'm plentyn yn yr ysgol unedig?

Byddai'r holl blant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Tregatwg adeg yr uno yn sicr o gael lle yn yr ysgol unedig.

Byddai'r plant sydd yn yr ysgol feithrin ar hyn o bryd ac a fyddai'n dal i fynychu'r ysgol feithrin am flwyddyn arall yn 2016/17 yn sicr o gael lle yn awtomatig yn nosbarth meithrin yr ysgol unedig.

Dylai'r holl deuluoedd sydd am wneud cais am le yn y dosbarthiadau derbyn fel rhan o'r broses dderbyn ar gyfer lleoedd ysgol gynradd yn 2016/17, ddilyn y gweithdrefnau arferol fel y maent yn y 'Canllaw i Rieni ar Drefniadau Derbyn i'r Ysgol 2016-17'.

Beth fydd y trefniadau derbyn i'r plant sy'n gwneud cais am le yn nosbarth derbyn yr ysgol gynradd ar gyfer mis Medi 2016?

Cyngor Bro Morgannwg fydd yr awdurdod derbyn o hyd ar gyfer yr ysgol unedig. Gall plant gychwyn ar eu haddysg amser-llawn ym mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Gall rhieni wneud cais am fynediad i'r dosbarth derbyn ym mis Medi 2016 rhwng 09 Tachwedd 2015 a Ionawr 11, 2016.

Bydd rhieni sydd wedi gwneud cais am le yn y dosbarth derbyn yn cael gwybod beth yw canlyniad eu cais ar 18 Ebrill 2016.

Pennir y dyddiadau hyn ar gyfer holl Awdurdodau Lleol Cymru.

Beth fydd y trefniadau derbyn i'r plant sy'n gwneud cais am le yn nosbarth meithrin yr ysgol gynradd unedig?

Mae hawl gan blant i gael lle meithrin yn rhan-amser o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair. Cyngor Bro Morgannwg yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol, a hynny yn achos y dosbarth meithrin ac yn achos cael mynediad i'r flwyddyn dderbyn. Trafodir trefniadau derbyn ar dudalen 20 y ddogfen hon. Nid yw presenoldeb plentyn mewn dosbarth meithrin yn golygu bod hawl awtomatig ganddo i gael lle yn nosbarth derbyn yr un ysgol. Os oes lle i'w plentyn yn y dosbarth meithrin yn cael ei gynnig i rieni, fe'u hatgoffir bod yn rhaid gwneud cais newydd er mwyn cael mynediad i ddosbarth derbyn yr ysgol.

A fydd unrhyw newidiadau i'r dalgylch lleol os bydd y cynnig yn mynd rhagddo?

Ar hyn o bryd mae gan ysgolion meithrin a chynradd Tregatwg yr un dalgylchoedd (fel y dangosir yn y map o'r dalgylch ar dudalen 10). Ni fydd y dalgylch yn newid yn sgil yr uno arfaethedig.

A fydd uno Ysgol Feithrin Tregatwg ac Ysgol Gynradd Tregatwg yn golygu y bydd gan Ysgol Gynradd Tregatwg enw newydd?

Y cynnig a wneir yn y ddogfen hon yw ymestyn ystod oedran yr ysgol yn unig. Ni fydd angen newid enw'r ysgol.

A fydd pholisïau'r ysgol yn newid er mwyn adlewyrchu'r plant oedran meithrin newydd a'u hanghenion?

Penderfyniad i'r corff llywodraethu ac i bennaeth yr ysgol fydd hwn. Bydd yr ysgol yn adolygu ei pholisïau er mwyn sicrhau bod holl blant yr ysgol yn cael eu cwmpasu gan bolisïau llywodraethu a diogelu yr ysgol.

A fydd yn ofynnol i'r plant meithrin wisgo gwisg ysgol?

Y pennaeth a chorff llywodraethu yr ysgol fydd yn gwneud y penderfyniad hwn.

Uno Ysgolion Meithrin a Chynradd Tregatwg

Mae eich barn am y cynigion yn bwysig, felly rhwngch wybod inni trwy:

- lenwi ffurflen ymateb ar-lein www.valeofglamorgan.gov.uk/cadoxtonschools; neu
- ateb y cwestiynau ymgynghori a rhoi eich safbwyntiau ar y ffurflen hon

A fydddech cystal â dychwelyd y ffurflen i'r cyfeiriad rhabost ar waelod y ffurflen.

Cofiwch fod yn rhaid i'r holl sylwadau gynnwys enw llawn a chyfeiriad post llawn y sawl sy'n gwneud y sylwadau.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw 15 Chwefror 2016.

Yn affodus ni all y Cyngor ystyried unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Ni fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynigion, ond byddant yn cael eu hystyried gan y Cabinet pan fydd yn gwneud ei benderfyniad.

Gellir ond cofrestru gwrthwynebiadau yn dilyn cyhoeddi **hysbysiad statudol**.

Gellir gwneud cais am unrhyw ymatebion a geir o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac efallai y bydd yn rhaid eu rhyddhau i'r cyhoedd. Fodd bynnag byddai unrhyw wybodaeth a fyddai'n datgelu pwy yw'r unigolyn megis enw, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post yn cael ei dileu.

Eich enw:

Cyfeiriad:

Cod post:

Cyfeiriad E-bost:

Dyddiad:

A fydddech cystal â dweud wrthym a ydych yn ymateb fel:

Ysgol Gyfredol

1. Rhiant
2. Disgybl
3. Llywodraethwr
4. Aelod o'r Staff
5. Preswlydd Lleol
6. Arall (nodwch)

.....

.....

.....

.....

.....

Uno Ysgolion Meithrin a Chynradd Tregatwg

Cwestiynau

1. A ydych yn cefnogi'r cynnig i uno ysgolion Meithrin a Chynradd Tregatwg trwy gau Ysgol Feithrin Tregatwg a thrwy ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Tregatwg fel ei bod yn ysgol 3 i 11 oed o fis Medi 2016 ymlaen?


Ydw

Nac ydw

Eglurwch pam rydych yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cynnig.

2. Os hoffech awgrymu unrhyw newidiadau neu ddewisiadau eraill yn hytrach na'r cynigion, nodwch hwy isod.

Unrhyw sylwadau eraill?



Diolch am eich sylwadau

Ticiwch y blwch isod os hoffech gael gwybod am gyhoeddiad yr adroddiad ymgynghori

Rhadbost RTGU-JGBH-YYJZ
Ymgynghoriad
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid
Cyngor Bro Morgannwg
Swyddfeydd Dinesig
Holton Road
Y BARRI
CF63 4RU

**Dychwelwch y ffurflen hon i Gyngor Bro Morgannwg erbyn dydd Llun 15 Chwefror
2016 fan hwyraf**

Nodiadau ar y Ddogfen Ymgynghori

Ffurflen Monitro Cydraddoldeb Bro Morgannwg

Rhywedd a Hunaniaeth o ran Rhywedd				
Beth yw eich rhywedd?	<input type="checkbox"/> Benyw <input type="checkbox"/> Gwryw			
Adeg eich geni, a gawsoch eich disgrifio fel?	<input type="checkbox"/> Benyw <input type="checkbox"/> Gwryw <input type="checkbox"/> Rhyngrywiol <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud			
Anabledd				
A yw eich gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu o achos anabledd, salwch, neu gyflwr iechyd meddwl neu gorfforol sydd wedi para, neu y mae disgwyl iddo bara, 12 mis neu ragor?	<input type="checkbox"/> Ydynt – maent wedi'u cyfyngu i raddau helaeth <input type="checkbox"/> Ydynt – maent wedi'u cyfyngu ychydig <input type="checkbox"/> Nac ydynt <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud			
Oedran				
Beth yw eich dyddiad geni?:				
Hunaniaeth Genedlaethol				
Hunaniaeth Genedlaethol – sut y byddech yn disgrifio eich hunaniaeth genedlaethol?				
<input type="checkbox"/> Cymreig	<input type="checkbox"/> Seisnig	<input type="checkbox"/> Albanaidd	<input type="checkbox"/> O Ogledd Iwerddon	<input type="checkbox"/> Prydeinig
<input type="checkbox"/> Arall (nodwch)		<input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud		
Grŵp Ethnig				
Ethnigrwydd – sut y byddech yn disgrifio eich grŵp ethnig?				
Gwyn				
<input type="checkbox"/> Cymreig/Seisnig/Albanaidd/o Ogledd Iwerddon/Prydeinig			<input type="checkbox"/> Gwyddelig	
<input type="checkbox"/> Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig		<input type="checkbox"/> Unrhyw gefndir gwyn arall (nodwch):		
Grwpiau ethnig cymysg/amryfal				
<input type="checkbox"/> Gwyn a Du Caribïaidd	<input type="checkbox"/> Gwyn a Du Affricanaidd	<input type="checkbox"/> Gwyn ac Asiaidd		
<input type="checkbox"/> Unrhyw gefndir ethnig cymysg/amryfal arall (nodwch):				
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig				
<input type="checkbox"/> Indiaidd	<input type="checkbox"/> Pacistanaidd	<input type="checkbox"/> Bangladeshaidd	<input type="checkbox"/> Tsieineaidd	
<input type="checkbox"/> Unrhyw gefndir Asiaidd arall (nodwch):				
Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig				
<input type="checkbox"/> Affricanaidd		<input type="checkbox"/> Caribïaidd		
<input type="checkbox"/> Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall (nodwch):				
Grŵp ethnig arall				
<input type="checkbox"/> Arabaidd				
<input type="checkbox"/> Unrhyw grŵp ethnig arall (nodwch):				

Mae'n well gennyf beidio â dweud

Yr iaith Gymraeg

Disgrifiwch eich gallu o ran yr iaith Gymraeg trwy roi tic yn y blwch/blychau perthnasol isod.

	Deall	Siarad	Darllen	Ysgrifennu
Dim	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Sylfaenol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cymwys	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Da	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Rhugl	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Hunaniaeth Rywiol

O blith y dewisiadau canlynol, pa un sy'n eich disgrifio orau?

<input type="checkbox"/> Heterorywiol / strêr	<input type="checkbox"/> Hoyw neu lesbiad	<input type="checkbox"/> Deurywiol
<input type="checkbox"/> Arall	<input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud	

Crefydd

Beth yw eich crefydd?

<input type="checkbox"/> Heb crefydd	<input type="checkbox"/> Cristion (pob enwad)	<input type="checkbox"/> Bwdhaidd
<input type="checkbox"/> Hindŵaidd	<input type="checkbox"/> Iddewig	<input type="checkbox"/> Mwslimaidd
<input type="checkbox"/> Unrhyw crefydd arall (nodwch):	<input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud	

Beichiogrwydd a Mamolaeth

A ydych yn feichiog ar hyn o bryd neu a ydych wedi bod yn feichiog yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?	<input type="checkbox"/> Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud
A ydych wedi bod ar gyfnod mamolaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?	<input type="checkbox"/> Ydw <input type="checkbox"/> Nac ydw <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud

Priodas a Phartneriaeth Sifil

Beth yw eich statws cyfreithiol o ran priodas neu bartneriaeth sifil o'r un rhyw?	<input type="checkbox"/> Sengl, heb briodi na chofrestru mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw erioed <input type="checkbox"/> Yn briod ac yn byw gyda gŵr/gwraig <input type="checkbox"/> Wedi gwahanu ond yn dal yn briod yn gyfreithiol <input type="checkbox"/> Wedi ysgaru <input type="checkbox"/> Gweddw <input type="checkbox"/> Mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw gofrestredig ac yn byw gyda'ch partner <input type="checkbox"/> Wedi gwahanu, ond yn dal mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw yn gyfreithiol <input type="checkbox"/> Yn arfer bod mewn partneriaeth sifil o'r un rhyw sydd bellach wedi'i diddymu'n gyfreithiol <input type="checkbox"/> Partner goroesol partneriaeth sifil o'r un rhyw <input type="checkbox"/> Mae'n well gennyf beidio â dweud
---	--

